# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.00 Y.B, DYDD MAWRTH, 29AIN MAWRTH, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 21 Mawrth 2022)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Dewi Owen
Anne Lloyd Jones
Mike Stevens

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Bob Tyrrell | Cyngor Cymuned Aberdyfi |
| David Williams | Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Pysgodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |
| Sedd wag | RNLI |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Cynghorydd Rob Triggs | Cyngor Tref Abermaw |
| Cynghorydd Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 2il o Dachwedd 2021 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR — 9 - 15

I ystyried adroddiad yr Uwch Swyddog Harbwr

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

I ystyried materion a dderbyniwyd

## 7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi yn cael ei gynnal 25ain o Hydref 2022

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI 02/11/2021

**YN BRESENNOL:**

**Aelodau**: Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Dewi Owen (Cyngor Gwynedd), Cyng. Mike Stevens (Cyngor Gwynedd), Al Crisp (Outward Bound Wales), Cyng David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Guy Shaw (Clwb Rhwyfo Aberdyfi) a Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi).

Swyddogion: Barry Davies (Rheolwr Morwrol), Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Oli Simmons (Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi), Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Gareth Thomas, Llyr B. Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Cynghorydd Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Will Stockford (Harbwrfeistr Aberdyfi).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

## 3. COFNODION

**a.** Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2ail o Fawrth, 2021, fel rhai cywir.

**b.** Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion

## 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

**PENDERFYNIAD**

**(1) Penderfynwyd nodi a derbyn yr adroddiad.**

**(2) Ymateb i bapur ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth "Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft" bod y pwyllgor hwn yn ffafrio opsiwn 3, sef llunio deddfwriaeth dan adran 112 o Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 i ymestyn darpariaethau perthnasol Deddf Llongau Masnach 1995, a rheoliadau perthnasol, i gynnwys badau dŵr hamdden a phersonol.**

Rhoddwyd diweddariad ar faterion rheolaethol yr harbwr gan y Uwch Swyddog Harbyrau. Nododd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Bod 76 o gychod ar angorfeydd o gymharu â 47 yn 2020. Ategodd yn gyffredinol, bod harbyrau Gwynedd wedi gweld cynnydd yn nifer y cychod ar angorfeydd.

- Tybiwyd bod y cynnydd o ganlyniad i ryddhad rheoliadau Covid-19 yn ogystal â'r parhad o'r rhwystrau i deithio dramor.
- Rhannwyd bod y drefn cofrestru ar-lein ar gyfer cychod pŵer a jetskis wedi bod yn llwyddiant
- Crynhowyd y cyfanswm cofrestriadau 1,308 a chyfanswm ar gyfer cofrestriadau Cychod Dwr Personol (jestskis) 1,302.
- Nododd bod y Pwyllgor yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r cod diogelwch morwrol, ac ategodd i aelodau eu hysbysu ynghylch unrhyw sylwadau.

Cyflwynwyd diweddariad ar faterion staffio fel a ganlyn:

- Nododd nad yw'r lefel staffio wedi newid ers yr adroddiad diwethaf ac ategodd bod y gwasanaeth yn medru galw staff o Borthmadog neu Abermaw os oes angen yn codi.
- Penodwyd 2 warden traeth i gynorthwyo gyda goruchwylio rheolaeth ar brif draeth Aberdyfi ac ategwyd yn ôl adborth gan drigolion bod hyn wedi bod yn llwyddiant.
- Mewn perthynas â materion Pwyllgor, mynegwyd balchder yn y gefnogaeth sydd i'r Pwyllgor hwn, a rhannwyd bod sedd wag ar hyn o bryd. Dywedodd bod cais wedi dod gan y mudiad bad achub i lenwi'r sedd, a gofynnwyd am gefnogaeth yr aelodau i sicrhau bod y sedd yn cael ei lenwi erbyn y cyfarfod nesaf yn y Gwanwyn.

Cyflwynwyd materion ariannol gan Reolwr Morwrol, aethpwyd ati i egluro'r sefyllfa ariannol yr Harbwr gan nodi'r gyllideb, gwariant a gwir wariant ac egluro unrhyw gôr neu danwariant i'r aelodau.

Aethpwyd ati i drafod y ddogfen ar ymgynghoriad cryfhau gorfodaeth ar ddefnydd peryglus cychod pleser a badau dwr personol. Eglurodd bod dyddiad cau'r ymgynghoriad wedi bod, fodd bynnag mae llythyr wedi ei hysgrifennu i'r Adran Drafnidiaeth yn Llundain yn nodi dyddiad y pwyllgor hwn ac yn egluro y bydd sylwadau Cyngor Gwynedd yn cael eu rhannu yn dilyn y Pwyllgor.

Adroddwyd bod 4 opsiwn ynghlwm a'r ymgynghoriad gyda'r un ffafriol i ddiwygio'r ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 i ymestyn darpariaethau perthnasol Deddf Llongau Masnach 1995, a rheoliadau perthnasol, i gynnwys badau dŵr hamdden a phersonol. Eglurodd bod y Pwyllgorau harbyrau eraill, eisoes wedi penderfynu cefnogi'r opsiwn yma. Ategodd nad oed rhaid dilyn y dewis hwn a gofynnwyd am farn yr Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth cafwyd y sylwadau isod gan aelodau:

- Mynegwyd balchder o weld bod niferoedd y cychod yn uwch gan i fod yn dda iawn i'r gwasanaeth o ran cyllid ychwanegol.
- Gofynnwyd am gywirdeb gyda niferoedd gan fod y copi Saesneg yn wahanol i'r un Gymraeg o ran nifer cofrestriadau.
- Rhoddwyd sylw am gwt y wardeniaid traeth a gofynnwyd a yw'n bosib gosod rhywbeth mwy gweddus i'r ardal.
- Nodwyd bod y staff wedi wynebu tymor prysur iawn a diolchwyd i'r holl staff a oedd ar gael o gwmpas yr harbwr.
- Holwyd aelod am eglurder ar wariant ar Offer a Chelfi o gymharu â'r flwyddyn gynt.
- Awgrymwyd i wahaniaethu rhwng eitemau mordwyo ac offer eraill ar y gyllideb.
- Mewn perthynas â'r ymgynghoriad, nodwyd yr aelodau eu bod yn hapus i fynd efo opsiwn 3 ond ategwyd rhai nad oeddent yn gweld bod llawer o wahaniaeth am fod i'r drefn bresennol.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau a'r Rheolwr Morwrol a:

- Bod nifer o gabanau i warchod staff gysgodi mewn tywydd garw, fodd bynnag mae angen annog staff i fod allan efo'r cyhoedd yn siarad ac ymgysylltu a gwneud gwaith ar y traeth. Ategodd ei fod ar y rhaglen waith i uwchraddio'r cabanau.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn ar wariant Offer a Chelfi y buddsoddwyd mewn cymhorthion mordwyo, cadwyni, llusernau a chynorthwywyr modrwyo oherwydd o dan god diogelwch mae'n un o gyfrifoldebau statudol. Ategodd ei fod yn hanfodol bod yn cynnal a chadw'r offer yma.
- Ystyriwyd gwahaniaethu ar y gyllideb, fodd bynnag penderfynwyd nad oedd yn briodol, Cytunwyd i ystyried gwahanu'r gost mordwyo gan fod cost ailosod ac adleoli gyda mordwyo. Sicrhawyd y bydd wedi gwahaniaethu yn y gyllideb nesaf.

## 5. ADRODDIAD YR HARBWRFEISTR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Harbwrfeistr Cynorthwyol yn nodi'r prif bwyntiau ar y materion gweithredol fel a ganlyn:

- Gyda materion mordwyo nododd bod y sianel yn newid yn gyson ac yn cael ei fonitro drwy gydol y tymor fel bod modd rhoi rhybuddion i forwyr
- Eglurwyd bod 'Trinity House' wedi bod i archwilio a nodwyd bod contractwyr lleol wedi cwblhau'r gwaith cynnal a chadw fel yr ofynnwyd ar y cynorthwyon mordwyo.
- Mewn perthynas â materion gweithredol, nododd bod diwedd ar y cyfyngiadau Covid wedi arwain at Haf brysur iawn ond bod y wardeniaid ychwanegol wedi bod o gymorth mawr.
- Ychwanegodd bod y mwyafrif o ymwelwyr wedi bod yn barchus, fodd bynnag cofnodwyd ambell i brofiad amharchus. Nododd yn ychwanegol bod cynnydd mewn sbwriel yn cael ei adael o amgylch yr harbwr a'r traeth.
- Eglurodd bod cynnydd aruthrol mewn SUP's (StandUp Paddleboards) ar y traeth, llwyddodd y warden i gynghori defnyddwyr ar ddiogelwch y môr ag i gadw'r sianel yn glir.
- Aethpwyd ati i egluro'r holl waith cynnal a chadw sydd wedi bod megis gyda'r cytiau a'r bad patrolio.

Ychwanegodd y Rheolwr Morwrol y canlynol:

- Bod recriwtio i swyddi tymhorol yn heriol a gofynnwyd i'r aelodau hysbysebu unrhyw swyddi o fewn eu wardiau neu gymunedau.
- O ganlyniad i gamdriniaeth eiriol, mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn camerâu Teledu Cylch Gyfyng i staff wisgo.
- Er mwyn ymdrin â sbwriel, y rhan fwyaf o ganlyniad i ymwelwyr yn dal crancod, nododd bydd angen cydweithio efo siopau lleol sy'n gwerthu'r offer yn ogystal â lleoli biniau ar gyfer plastig o amgylch yr harbwr.
- Eglurodd sefyllfa wal y cei gan nodi ei fod yn deall rhwystredigaeth y Pwyllgor wrth i hyn fod yn bwnc trafod ers blynyddoedd. Fodd bynnag, nododd bod y gwaith wedi ei hail dendro a bod y ceisiadau yn cael eu hasesu gan yr adran YGC.
- Ychwanegodd y byddai'r cyfathrebu gyda'r aelodau wedi'r penderfyniad gael ei wneud ar enillydd y contract.

Cafwyd y wybodaeth isod ynghylch sefyllfa Ynys Picnic gan gynrychiolydd Outward Bound Trust:

- Nodwyd erbyn y pwyllgor nesaf bydd bont yn ei le neu ar y ffordd. Diolchwyd i Network Rail am eu cefnogaeth tra bod y gwaith yn digwydd.
- Eglurodd bod partneriaid lleol a Chyngor Gwynedd yn asesu'r sylfaen ym mis Tachwedd ac yna bydd broses o dynnu'r hen strwythur a'i ddisodli gydag un newydd.
- Mewn perthynas â chostau, nododd y Rheolwr Morwrol bod costau dur er enghraifft wedi cynyddu yn sylweddol a gobeithiwyd bod y tendr ffurfiol yn dod o fewn y gyllideb.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd y sylwadau isod gan aelodau:

- Holwyd os oedd cost i'r gwasanaeth harbyrau i ddelio efo sgerbydau anifeiliaid sy'n cael eu golchi mewn gan y môr.
- Mynegwyd bod llawer o bethau positif wedi bod yn yr ardal dros yr haf ond am y sbwriel. Ategwyd aelodau bod angen cychwyn sgwrs efo siopau ac awgrymwyd system benthyca offer fel eu bod yn dychwelyd wedi eu defnyddio.
- Ategwyd bod y Cyngor Cymuned yn derbyn cwynion am y sbwriel a bod biniau ychwanegol wedi cael ei drafod.
- Diolchwyd i'r holl staff am eu gwaith yn ystod y flwyddyn brysur iawn, ategodd aelod ddiolch arbennig i Swyddog Traeth Tywyn am ei waith yn ymgysylltu gydag ymwelwyr.
- Gofynnwyd am sicrhad y bydd gwybodaeth sydyn ar gael ynghylch wal y cei gan ei fod yn mynd i greu problemau enfawr ar y gwaith sydd ar y cei. Ategodd bod sawl e-bost wedi dod yn barod yn holi am yr aflonyddwch a fydd i'r clwb hwylio.
- Nodwyd ei fod yn bwysig bod gwaith ar wal y cei yn cael ei wneud cyn gynted â phosib er y bydd cwynion a thrafferthion ond mae angen ei wneud ar frys.
- Awgrymwyd bod angen ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus i gadw trigolion yn ymwybodol am y camau a'r gwaith, unwaith fydd y contract wedi ei osod mae angen cychwyn ar hyn.
- Holwyd am y posibilrwydd o gynnal cyfarfod arbennig unwaith fydd penderfyniad wedi ei wneud ar gontractwyr.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Morwrol y pwyntiau isod:

- Bod cost yn amrywio i ddelio a sgerbydau anifeiliaid ac os nad oes modd mynd a cherbyd ato y byddant yn cael eu claddu yn y fan a'r lle. Eglurodd bod y gost yn dod o gyllidebau traethau ac nid harbwr gan mai ar y traeth mae mwyafrif y sgerbydau yn ymddangos.
- Nid ydynt yn rhagweld bod unrhyw golled ariannol am fod i unrhyw gorff sy'n gweithio ar y cei a bydd sicrhad bod busnesau yn parhau i aros ar agor trwy'r gwaith allweddol.
- Nododd bydd cyswllt rhwng rheolwr safle'r gait ar y cei a defnyddwyr yr harbwr ar gyfer unrhyw wybodaeth. Ychwanegodd y bydd staff morwrol wrth law ac yn hwyluso'r gallu i gael gwybodaeth bellach.
- Eglurodd na fydd yn bosib trefnu cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor i drafod deilliant y tendr gyda wal y cei. Fodd bynnag, awgrymodd cyfarfod anffurfiol i gael trafodaeth.

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Holwyd aelod ynghylch hylendid dŵr yn yr afon a beth yw'r diweddariad gyda'r llygredd i'r afon Ddyfi.

Nodwyd aelod bod tywod ar y stryd fawr yn broblem a chyfeiriwyd at y Pwyllgor blaenorol pan drafodwyd hyn a phenderfynwyd peidio ymyrryd gan nad oedd arian o fewn y gyllideb.
Ategodd aelod bod hyn yn peri anawsterau i'r bad achub gan fod tywod ar y llithrfa.

Mewn ymateb i'r materion, nododd y Rheolwr Morwrol y pwyntiau canlynol:

- Aberdyfi yn cyrraedd y gofynion angenrheidiol o ran hylendid dwr yn ôl Llywodraeth Cymru.
- Ychwanegodd os oes risg i ansawdd dwr ymdrochi, bod y Gwasanaeth yn derbyn rhybuddion gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac yna'n hysbysebu'r rhybuddion.
- Nododd os oes unrhyw bryderon llygredd yn dod o lefydd penodol, y dylid hysbysebu CNC ar frys fel bod modd i swyddogion archwilio unrhyw honiad.

- Mewn perthynas â’r tywod, cydymdeimlwyd gyda’r broblem ond nododd nad oes gan y Gwasanaeth arian i lanhau llithrfa yn rheolaidd a gofynnwyd i’r bad achub rhoi rhaglen mewn lle i sicrhau bod y lithrfa’n glir.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 22ain o Fawrth, 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 11:50am

H1 **Materion Mordwyo**

1.1 Ar hyn o bryd, mae dau 'Hysbysiad Lleol i Forwyr' yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.2 **Rhif 18/20**

Bwi Bar: Rhif 2 Port: Fl.R.5s.
Mae'r bwi cymhorthydd mordwyo tymhorol yma wedi ei dynnu o'i safle.

1.3 **Rhif 19/20**

Bwi Bar: Rhif 1 Starboard: Fl.G.5s.
Nid yw'r cymhorthydd mordwyo ar ei safle priodol. Mae'r golau wedi diffodd.

1.4 Mae'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad gyda chontractwr lleol i ymgymryd â'r holl waith angenrheidiol pan fo'r tywydd yn caniatáu.

1.5 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwrfeistr yn Aberdyfi i gael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.

H2 **Materion Gweithredol**

2.5 Mae Ymddiriedolaeth yr Outward Bound wedi bod yn gweithredu rhaglen lawn gyda grwpiau sy'n gweithredu ar yr afon yn ystod misoedd y gaeaf. Dilynwyd protocol C19 caeth.

2.2 Mae'r gweithgareddau pysgota masnachol wedi parhau drwy fisoedd y gaeaf gydag un cwch, MFV Genesis, yn pysgota yn ystod tymor y cregyn bylchog a bellach yn pysgota yn lleol am orgimychiaid. Erbyn hyn mae ail gwch MFV Endeavour bellach wedi cael ei ail-lansio gyda'r bwriad o bysgota am orgimychiaid.

2.3 Mae'r MCA wedi bod yn weithredol ym mis Mawrth gyda thîm yn cynnal archwiliadau diogelwch ar hap ar gychod pysgota masnachol, gyda arolygon dilynol yn cael ei cynnal yn fuan wedyn. Cynhaliwyd un arolwg llawn yn Aberdyfi hyd yma (10/03/22) a gwelwyd fod y gwch mewn cyflwr da.

2.4 Cynhaliwyd arolwg dŵr isel (15:51 0,4m) cryno gan y gwasanaeth ar 03/03/22. Mae'r mynediad y tu hwn i Dai Cliffside i fyny'r afon yn gyfyngedig iawn. Bydd y gwasanaeth yn parhau i fonitro'r sefyllfa cyn i'r contractwr angorfeydd ddechrau ar ei waith. Yn anffodus, efallai bydd lleoliadau'r angorfeydd yn newid er mwyn cynnwys dyfnder a cilbren y cychod.

H3 **Cynnal a chadw**

3.1 Mae gwaith helaeth wedi ei ymgymryd ar Gymhorthyddion Mordwyo Rhif 1 a Rhif 2. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio y bydd y rhain yn ôl yn eu lle cyn gynted ag y bo'r contractwr lleol ar gael i wneud y gwaith.

3.2 Mae gwaith cynnal a chadw wedi ei ymgymryd ar power cat harbwr GP4 ynghyd â'r ôl-gerbyd. Bydd y cwch yn derbyn gwasanaeth, y gwaelod yn cael ei beintio ac yn barod i gael ei lansio ym mis Mawrth/Ebrill 2022.

3.3 Mae gwaith wedi ei wneud gan y tîm Morwrol i dacluso lloc y pysgotwyr a thynnwyd swm mawr o wastraff oddi yno gan ddefnyddio Aber Skip Hire. Bydd y gwaith yma yn parhau.

3.4 Bydd y gwaith yn cael ei wneud pan fo angen mewn perthynas â phrosiect amnewid wal yr harbwr.

3.5 Bydd y gwaith cynnal a chadw yn parhau drwy'r misoedd i ddod yn barod ar gyfer y tymor sydd o'n blaenau.

3.6 Mae cynnydd yn y carcysau ar y blaendraeth wedi arwain i ymgymryd â sawl diwrnod o waith ymatebol gan y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn gofyn os ydych yn gweld unrhyw gyrff anifeiliaid i chi roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosib.

H4 **Digwyddiadau**

4.1 Cafwyd gwasanaeth i gynnal PWC Gwynedd Blackrock Blast 2022, nid yw'r digwyddiad wedi ei gadarnhau eto.

4.2 Nid oes unrhyw geisiadau ffurfiol hyd yma wedi eu derbyn i ddathlu Jiwbili Platinwm y Frenhines Elizabeth II.

4.3 Bydd Clwb Hwylio Dyfi yn cynnal Pencampwriaethau Cenedlaethol GP14 ar 6/7 Mai 2022.

Carai'r Gwasanaeth atgoffa unrhyw drefnwyr o'r angen i ofyn am ganiatâd a chadarnhad cyn cynnal unrhyw ddigwyddiadau.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi.** |
| **DYDDIAD** | **29 Mawrth 2022** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbwr** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

**2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod.**

2.1 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y bydd y contractwr angorfeydd yn dechrau gosod angorfeydd yn yr harbwr cyn y Pasg, yn dibynnu ar ymrwymiadau a'r tywydd ar y pryd.

2.2 Y llynedd, cyflwynwyd system gofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol Cyngor Gwynedd drwy drefniant ar-lein, oedd yn caniatáu i gwsmeriaid ddewis y lleoliad mwyaf addas i gasglu trwyddedau cofrestru a lansio.

Yn dilyn llwyddiant y trefniant yma, bydd angen i gwsmeriaid gofrestru drwy wefan Cyngor Gwynedd, ar y system gofrestru a thalu ar-lein fydd yn agor ar 31 Mawrth 2022.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

3.1.2 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymorthyddion mordrwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

3.1.3 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda safonau diogelwch yn harbyrau Gwynedd a bod y rhain yn cael eu cadw gan gynnal archwiliad allanol o'r cod gan yr unigolyn dynodedig, Capten Matthew Forbes, Harbwrfeistr Conwy.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i weithio o swyddfa'r harbwr drwy gydol epidemig diweddaraf amrywiolyn Omicron y Coronafeirws i sicrhau diogelwch yr harbwr gan gydymffurfio gyda

Rheoliadau Coronafeirws presennol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau yn swyddfa'r harbwr yn parhau yn eu lle, gan gynnwys y sgrîn Persbecs ar gownter y cyhoedd i sicrhau diogelwch y staff yn ystod ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd.

4.2 Mae'r Harbwrfeistr a'i gymhorthydd wedi ymgymryd â rhaglen o waith cynnal a chadw dros y gaeaf yn yr harbwr, yn ychwanegol at ddarparu cymorth gyda'r gwaith sydd ei angen yn Harbyrau Porthmadog ac Abermaw. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn benodol mewn perthynas â marciau mordwyo cyn i gyfnod prysur yr haf ddechrau.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Trafodir crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Morwrol.

5.2 Yn ystod y cyfnod yma, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd ymwelwyr y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw'r tiroedd a'r celfi stryd
- Offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2022/23.** Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o ran y ffioedd a'r taliadau drafft yn Harbwr Aberdyfi ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Personol am dymor 2022/23.

Yr arwyddion presennol yw bydd ffioedd a thaliadau yn codi yn unol â graddfa chwyddiant. Mae copi o'r ffioedd arfaethedig ar gael er gwybodaeth. Nid yw'r rhain wedi eu cadarnhau.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Mae Harbwrfeistr Aberdyfi wedi darparu crynodeb byr o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol / Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**Holl ffioedd ddim yn cynnwys TAW 2022/23 All fees exclusive of VAT**

| Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach) | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Renewal Fees (Small Permits) | Cynnydd mewn £ | Cynnydd mewn % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ail-cofrestru Blynyddol - ar lein yn unig | £29.17 | £33.33 | £41.66 | Annual Re-registration - on line only | £8.33 | 25.00% |
| **Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)** | | | | **New Vessel Applications (Large and Small Permits)** | | |
| Cofrestru Blynyddol - ar lein yn unig | £37.50 | £33.33 | £41.66 | Annual Registration - on line only | £8.33 | 25.00% |
| **Ffi Lansio** | | | | **Launching Fees** | | |
| Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol | £16.67 | £16.67 | £16.67 | Daily launch – General Slipways/Beaches | £0.00 | 0.00% |
| Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio) | £16.67 | £16.67 | £16.67 | Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking) | £0.00 | 0.00% |
| Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)<br>Cynnwys Ffi Cofrestru | £125.00 | £125.00 | £125.00 | Annual Launching Permits (1 April – 31 March)<br>Inclusive of Registration Fee | £0.00 | 0.00% |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | | | **Transfer / Replacement** | | |
| Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli | £37.50 | £37.50 | £37.50 | Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli | £0.00 | 0.00% |
| **Cychod llai na 10 HP** | | | | **Vessels under 10 HP** | | |
| Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig<br>Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio. Dim ffi lansio yn daladwy. | £25.00 | £25.00 | £25.00 | Annual Registration Fee – In Person Application Only<br>At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection. No launching fees charged for small vessel. | £0.00 | 0.00% |

## Adenill Incwm Ffioedd 2022/23

**(targedau isod ddim yn cynnwys Incwm Rhenti ac Incwm Gwerthu Trydan)**

| Pennawd | Targed Incwm 2021/22 | % Chwyddiant i'w Adenill | £ Chwyddiant i'w Adenill | Targed Incwm 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Hafan** | -£1,426,410 | 3.89% | -£44,620 | -£1,471,030 |
| **Traethau** | -£323,110 | 3.77% | -£12,180 | -£335,290 |
| **Harbwr Pwllheli** | -£25,220 | 3.89% | -£1,030 | -£26,250 |
| **Harbwr Porthmadog** | -£65,620 | 4.15% | -£2,670 | -£68,290 |
| **Harbwr Abermaw** | -£29,190 | 3.66% | -£1,170 | -£30,360 |
| **Harbwr Aberdyfi** | -£25,760 | 3.88% | -£1,060 | -£26,820 |
| **Cyfanswm Harbyrau** | -£145,790 | 3.91% | -£5,930 | -£151,720 |
| **Doc Fictoria** | -£219,030 | 2.46% | -£5,390 | -£224,420 |

| | | | Cyllideb | Gwir at 28/2/22 | Gor neu (tan) yn erbyn y gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| DG51 | HAFAN PWLLHELI | GWEITHWYR | £325,700 | £220,049 | -£105,651 |
| DG51 | HAFAN PWLLHELI | EIDDO | £517,300 | £536,561 | £19,261 |
| DG51 | HAFAN PWLLHELI | TRAFNIDIAETH | £9,910 | £13,518 | £3,608 |
| DG51 | HAFAN PWLLHELI | GWASANAETHAU A CHYFLENWADAU | £130,130 | £96,645 | -£33,485 |
| DG51 | HAFAN PWLLHELI | INCWM | -£1,445,470 | -£1,593,119 | -£147,649 |
| Cyfanswm | | | -£462,430 | -£726,346 | -£263,916 |
| DG52 | HARBWR PWLLHELI | GWEITHWYR | £28,450 | £22,193 | -£6,257 |
| DG52 | HARBWR PWLLHELI | EIDDO | £30,540 | £36,260 | £5,720 |
| DG52 | HARBWR PWLLHELI | TRAFNIDIAETH | £590 | £0 | -£590 |
| DG52 | HARBWR PWLLHELI | GWASANAETHAU A CHYFLENWADAU | £10,140 | £1,087 | -£9,053 |
| DG52 | HARBWR PWLLHELI | INCWM | -£25,220 | -£32,125 | -£6,905 |
| Cyfanswm | | | £44,500 | £27,415 | -£17,085 |
| DG53 | HARBWR PORTHMADOG | GWEITHWYR | £61,120 | £60,396 | -£724 |
| DG53 | HARBWR PORTHMADOG | EIDDO | £34,150 | £7,195 | -£26,955 |
| DG53 | HARBWR PORTHMADOG | TRAFNIDIAETH | £600 | £389 | -£211 |
| DG53 | HARBWR PORTHMADOG | GWASANAETHAU A CHYFLENWADAU | £10,050 | £28,107 | £18,057 |
| DG53 | HARBWR PORTHMADOG | INCWM | -£65,620 | -£67,241 | -£1,621 |
| Cyfanswm | | | £40,300 | £28,845 | -£11,455 |
| DG54 | HARBWR ABERMAW | GWEITHWYR | £60,430 | £53,619 | -£6,811 |
| DG54 | HARBWR ABERMAW | EIDDO | £14,560 | £6,775 | -£7,785 |
| DG54 | HARBWR ABERMAW | TRAFNIDIAETH | £750 | £193 | -£557 |
| DG54 | HARBWR ABERMAW | GWASANAETHAU A CHYFLENWADAU | £9,820 | £16,577 | £6,757 |
| DG54 | HARBWR ABERMAW | INCWM | -£29,590 | -£29,633 | -£43 |
| Cyfanswm | | | £55,970 | £47,530 | -£8,440 |
| DG55 | HARBWR ABERDYFI | GWEITHWYR | £60,890 | £57,548 | -£3,342 |
| DG55 | HARBWR ABERDYFI | EIDDO | £25,650 | £11,607 | -£14,043 |
| DG55 | HARBWR ABERDYFI | TRAFNIDIAETH | £630 | £411 | -£219 |
| DG55 | HARBWR ABERDYFI | GWASANAETHAU A CHYFLENWADAU | £7,260 | £6,887 | -£373 |
| DG55 | HARBWR ABERDYFI | INCWM | -£32,160 | -£27,712 | £4,448 |
| Cyfanswm | | | £62,270 | £48,742 | -£13,528 |